

# O GAMDDWR I GAIRO

HANES DAVIES BRYAN & CO., YR AIFFT

**A**r Fawrth Iaf 1934 caeodd Joseph Davies Bryan ddrysau ei fusnes a darfu 50 mlynedd o antur masnachol na welwyd mo'i debyg ymlith y Cymry yn y Dwyrain Canol o'r blaen. Cododd y brodyr Davies Bryan i'r brig ym myd gwerthu nwyddau Prydeinig yn yr Aiffit a'r Swdan rhwng 1887 a 1934.

O'r pedwar brawd, John, yr hynaf, oedd y cyntaf i ymsefydlu yn yr Aiffit. Bu bron iddo fetu â chyrraedd yno o gwbl yn 1886 oherwydd storm ym Mae Biscay. Ond o'r diwedd glaniodd yn Alexandria. Wedi lluo o drafferthion agorodd siop dilladau fechan yng Nghairo, yn Ionawr 1887. Un gair oedd ar wefusau ei ffriandiau - methiant. Roedd nifer o resymau am hyn, ac o'r herwydd doedd taith masnachol John ddim yn hawdd. Yng Ngwanwyn 1887 stryffaglodd i grynhoi ei anturiaethau mewn cyfres o erthyglau i'r Genedl, i hysbysebu'r fenter a chynyddu nifer ei gwsmeriaid prin. Trowyd rhain i mewn i'r llyfryn O'R AIFFT yn 1908. Petai'r diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones heb fenthyg ei gopi imi, ar drothwy fy ymweliad cyntaf â'r Aiffit, mae'n debyg na fyddai O GAMDDWR I GAIRO yn bodoli.

## Caledi Mwyngloddio

Hannaï y Brodyr Davies Bryan - John, Robert, Edward a Joseph - o Lanarmon yn Iâl. Sir Ddinbych yn wreiddiol, ond fe'u magwyd gan fwyaf ym Minera, Sir Y Fflint oherwydd gwaith eu tad, Edward Bryan, fel mwyngloddwr plwm. Buont yn byw yn Park Mine o 1869 tan 1884. Trwy eu llythyrau

teuluoel cawn gip olwg ar fyd diflanedig. Yr adeg hynny creithiodd cymuned gweithiol Minera ochrau'r mynydd gyda'i weithfeydd plwm egr a budr. Dyma wythiennau economaidd yr ardal a daeth pobl o hob rhan o Brydain i weithio yno. Bywyd arbennig o galed oedd cloddio plwm a ni ddisgwyldid i fwyngloddwr fyw tu hwnt i hanner cant. Yn y Gaeafau mwyaf gerwin gweithient y tu allan pan nad oedd posib sefyll bron oherwydd yr oerfel. Nid oedd gan deuluoedd mwynwyr lawer o eiddo, heb sôn am fwyd ar eu platau, pan oedd pethau'n dynn yn y gwaith. Beth allai mwyngloddwr obeithio adael ar ei ôl wedi bywyd o wasanaeth? £200 efallai, os hynny. Pa obeithion am ddyfodol gwell felly fyddai gan feibion Capten Bryan?

## Ehangu Gorwelion

Yng ngwyneb y fath galedi fe allech feddwl ei bod hi'n wyrth i Edward adael £100,000 i'w unig ferch, Olwen, yn ei ewylllys yn 1929, ac i Joseph allu prynu 85 acer o dir a'i roi i Brifysgol Aberystwyth, lle na allai fforddio astudio yn ei

ieuencid. Felly sut gododd y bechgyn o fywyd salw y mwyn-gloddwr i fywyd hudolus o deithio Ewrop a'r Dwyrain Canol a bod yn berchnogion un o adeiladau gwychaf y Dwyrain Canol erbyn 1910? Ar un wedd, mewn gair: Addysg. Ond at hynny cawsant gefndir crefyddol caeth da, tueddasant i weithio'n galed, dangosent awydd i godi'n y byd ac, yn ffordus, cawsant Samuel Evans yn gefndir iddynt.

## Disgleirdeb Samuel

Cyn ei fod yn 30 oed roedd Samuel wedi cael swydd efo'r llywodraeth ac yn 1883 teithiodd allan i'r Aiffit fel aelod o awdurdod Prydain. Treuliai ei ddyddiau tu ôl i ddrysau y Turf Club moethus pan nad oedd yn dal lladron ac yn gwerthu camelod a hynny i gyd mewn Arabeg.

Cael gwahoddiad i fynd allan at Samuel ar gownt ei iechyd wnaeth John, ond o'i lythyrau mae'n amlwg bod mwy na iechyd ar ei feddwl ac fel y gwyddom erbyn 1887 roedd wedi newid ei orwelion yn



*Dyma olygfa o'r siop fel yr oedd yn ei ddyddiau cynnar.*



*Yr adeilad fel y mae heddiw yng Nghairo brysur.*

llwyr. Er mawr syndod i lawer, erbyn 1888 caewyd y siop yng Nghaernarfon, ymadawodd Joseph â'r coleg i fynd i'r Aiffit, a daeth Edward ato hefyd. Roedd y brodyr i gyd - byddai Robert, oedd yn gerddor a bardd, yn ymweld bob Gaeaf - efo'i gilydd yn yr Aiffit, ac wedi symud yn bell iawn o drothwy Park Mine.

Enwogodd y brodyr eu hunain fel cyflogwyr da a thyfodd enw "Davies Bryan & Co." fel masnachwyr arbennig o nwyddau Prydeinig ac yn 1910 adeiladwyd "St. David's Buildings" yr adeilad modern mwyaf yn yr Aiffit ar y pryd. Mewnforwyd popeth ac roedd graen a chwaeth ym mhob man. Galwodd Lawrence o Arabia yno am grysau. Ond doedd o ddim i barhau... Erbyn 1919 roedd terfysgiadau yng Nghairo a bygythiad ar droed i ladd pob Prydeinwr yno?

Sut wnaethant oroesi? Beth fu hynt John? I ble aeth Samuel? Sut effeithiodd y rhyfel byd cyntaf arnynt? Pam oedd y brodyr mor bwysig i'r milwyr Cymreig? Beth oedd cysylltiad J Herbert Lewis, T. E. Ellis a T. Gwynn Jones â'r brodyr a pha ran y chwaraeodd Joseph yn nyfodol y bardd?... Ble mae Hafod - eu cartref - heddiw? Pwy oedd y merched cudd ym mywyd Edward a Robert? Cewch yr atebion i gyd yn y gyfrol unigryw O GAMDDWR I GAIRO.

SIÂN WYN JONES